TGCh yn yr Awyrgylch Awyr Agored

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Trosolwg:

Er y gwneir y rhan fwyaf o waith cyfrifiadur dan do, mae llawer o ffyrdd o ddefnyddio TGCh yn yr awyr agored fel rhan naturiol o chwarae a darganfod i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o sut, pam, pryd a lle mae ffurfiau gwahanol ar dechnoleg yn cael eu defnyddio mewn bywyd pob dydd.
Mae'r awyrgylch awyr agored yn rhoi cyfleoedd i chwarae rôl a fyddai'n anodd ei drefnu dan do ac mae'r lle ychwanegol yn annog datblygu corfforol ac yn creu cyfleoedd ychwanegol i ddysgu am TGCh yn y byd o'n cwmpas. Mae'r awyr agored yn rhoi cyfleoedd unigryw i chwarae rôl megis canolfannau garddio, fforwyr gwyddonol neu jyngl, damweiniau traffig ffordd, gwaith ffordd, lle golchi ceir, gorsaf dân, gwasanaeth torri i lawr, garej, etc (*gweler y ddogfen chwarae rôl*).

Mae naws unigryw darpariaeth awyr agored yn ei gwneud yn anodd creu mannau chwarae rôl tymor hir, felly mae blychau chwarae rôl yn opsiwn hyblyg ac yn gallu gweithredu fel sbardun ar gyfer chwarae dychmygus. Gall y cynnwys amrywio a dylai sbarduno diddordeb ac annog disgyblion i chwarae ac archwilio digwyddiadau go iawn a / neu ddychmygus trwy ysgogi sefyllfaoedd chwarae penodol. Er enghraifft, gallai digwyddiad traffig ffordd gynnwys arwyddion heol, goleuadau traffig, gwisg heddlu, siacedi fflworoleuol, setiau symud a siarad, nodiaduron a phensiliau, offer mesur, camera digidol, tâp digwyddiad, pecyn meddygol a ffonau symudol. Gellir defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu i wella'r mannau chwarae rôl dros dro hyn a dylent fod yn rhan o weithgaredd a rennir gydag oedolion a phlant yn gweithio gyda'i gilydd i greu'r senarios. Mae'r rholiau cardbord mewnol o garpedi'n wych fel 'pibellau' i ddŵr o bibell ddŵr lifo trwyddynt. Gallai toriad yn y rhôl efelychu prif bibell ddŵr wedi'i thorri ac arwain at ddigwyddiad traffig mawr wrth i'r bibell gael ei hatgyweirio a'r heddlu'n gorfod cyfarwyddo traffig ac ati.

Gellir codi pencadlys fforiwr gwyddonol a gallai gynnwys eitemau go iawn a / neu rai gwneud megis gliniadur, meicrosgop digidol, camera digidol, camera fideo, recordiwr sain, dictaffon, synwyryddion metel, setiau symud a siarad ac amseryddion. Gellir sefydlu blychau nythu gyda gwegamerâu ar gyfer arsylwi ar adar dros gyfnod o amser a gellir defnyddio offer cofnodi tywydd i wneud cofnodion syml er enghraifft. Gellir creu helfeydd lluniau digidol gyda lluniau o gamera digidol, lle mae'n rhaid i'r plant nodi a dod o hyd i eitemau awyr agored neu fannau trwy ddyfalu beth sydd yn y lluniau er mwyn dod o hyd i wrthrych arbennig.

Gall y plant ddefnyddio camerâu digidol rhad i gofnodi profiadau yn yr awyr agored. Mae'r byd yn edrych yn lled wahanol trwy lygaid plentyn a hyd yn oed os yw'r llun yn dangos dim ond rhan o wrthrych neu berson, gall hyn fod yn rhan o gêm ddyfalu ar y cyfrifiadur neu'r bwrdd gwyn rhyngweithiol ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Gallant dynnu lluniau neu ffilmio (mae camerâu fideo digidol rhad hefyd ar gael) eu hoff ran o'r ardd neu'r lle chwarae a siarad am eu dewis, tynnu llun o degan neu ffrind a siarad am y llun. Gellir dangos iddynt sut i ddangos y llun maent wedi'i dynnu ar y camera a'u hannog i siarad amdano. Hefyd, gall staff ddefnyddio camerâu lluniau llonydd digidol a chamerâu fideo digidol i gofnodi profiadau'r plant i'w dangos dan do ar gyfrifiadur neu fwrdd gwyn rhyngweithiol i sbarduno datblygiad iaith a chynorthwyo cofio.

Gellir tynnu lluniau o weithgareddau celf byrhoedlog a ymgymerir gan y plant yn yr awyr agored gyda brigynnau, dail, cerigos, petalau etc. fel cofnod parhaol a'u defnyddio mewn arddangosfeydd.

Gellir defnyddio teganau robotaidd a cherbydau a reolir o bell yn yr awyr agored ar arwyneb addas. Gall plant dynnu llinellau â sialc i'w dilyn, cael rasys, adeiladu eu cwrs rhwystrau eu hunain, gwneud nythod/cartrefi i'r teganau robotaidd ddychwelyd iddynt a gwneud cregyn i'w troi'n fwystfilod bach neu'n greaduriaid dychmygol etc.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2008. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Adnoddau:
Mae llawer o adnoddau ar gael ar gyfer TGCh yn yr Awyrgylch Awyr Agored. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, ond mae'n awgrymu rhai pethau i'w hystyried. Cofiwch nad oes rhaid prynu popeth; bydd copïo offer TGCh mewn bywyd pob dydd, megis peiriannau tocynnau meysydd parcio, adeiladu lle golchi ceir neu dŷ o fudd i gynyddu gwybodaeth y plant am y byd sydd o'u cwmpas a'u dealltwriaeth ohono.

Gellir defnyddio amryw flychau chwarae ar gyfer senarios chwarae, camerâu lluniau llonydd digidol a chamerâu fideo digidol i'w defnyddio gan staff a disgyblion, camerâu pen i recordio 'teithiau' plant neu eu clymu wrth deganau robotaidd, a cherbydau a reolir o bell, amseryddion, tortshis, ffonau symudol, setiau symud a siarad, goleuadau traffig, set offer adeiladwr, lamp ben fforiwr ac yn y blaen.

Gall gliniadur â meicrosgop digidol fod yn ffordd dda i blant archwilio dail, blodau, pryfed etc. y gallant ddod ar eu traws yn yr awyr agored. Gall pencadlys fforiwr gwyddonol gynnwys gliniadur ffug i estyn chwarae neu synwyryddion metel i archwilio'r pwll tywod neu'r potiau blodau llawn dail i adnabod a dod o hyd i wrthrychau metelig.

Gellir archwilio a mwynhau sain trwy fynd i'r awyr agored â recordyddion tâp, chwaraewyr CD a dyfeisiau recordio sain. Gall offer newid llais fod yn llawer o hwyl ac yn llai tebyg o aflonyddu ar eraill os cânt eu defnyddio yn yr awyr agored. Gall staff gofnodi sylwadau disgyblion mewn 'Tuniau Siarad' y gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer dosbarthu a labelu gwrthrychau y deuir o hyd iddynt.

Rhai awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau awyr agored:

- **Lle golchi ceir/Maes parcio**
- **Gorsaf drenau neu fysus**
- **Garej**
- **Gwaith heol**
- **Gwasanaethau argyfwng**
- **Safle adeiladu**
- **Caban gwyddonydd**
- **Fforwyr jyngl**
- **Celf dros dro gyda chamera digidol**
- **Camerâu lluniau llonydd/fideo**
- **Recordiadau sain**
- **Synwyryddion metel**
- **Teganau robotaidd**
- **Canolfan arddio**
- **Helfa drysor**

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2008. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg